Veterinary Medicines Directorate

# Crynodeb o'r ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Rhaglen Genedlaethol Rheoli Gweddillion: adolygu'r ffioedd

## Cynnwys

Cyflwyniad ........................................................................................ 2
Trosolwg ........................................................................................ 3
Nifer yr atebion a ddaeth i law ........................................................................................ 3
Y prif negeseuon ........................................................................................ 3
Crynodeb o'r ymatebion - fesul cwestiwn ........................................................................................ 3
Roedd Cwestiwn 1 yn gofyn: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hasesiad mai'r dull mwyaf teg o ddiwygio Atodlen 1 yw opsiwn C? ........................................................................................ 4
Roedd Cwestiwn 2 yn gofyn: Pa effaith fyddech chi'n disgwyl i'r cyfraddau diwygiedig ei chael ar eich elw? ........................................................................................ 4
Roedd Cwestiwn 3 yn gofyn: A fyddech chi'n disgwyl amsugno'r gost ychwanegol hon ynteu ei phasio ymlaen i'ch cwsmeriaid? ........................................................................................ 5
Roedd Cwestiwn 4 yn gofyn: Sut bydd hyn yn effeithio ar y galw am eich nwyddau a'ch gwasanaethau? ........................................................................................ 5
Ymateb y Llywodraeth ........................................................................................ 6
Atodiad 1 - Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ........................................................................................ 8
Pob ymatebydd ........................................................................................ 8
Lleoliad yr ymatebwyr ........................................................................................ 8
Tabl 1 - Newidiadau arfaethedig i Atodlen 1 ........................................................................................ 9

## Cyflwyniad

Rhwng 24 Tachwedd 2025 a 19 Ionawr 2026, cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD), Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cyd ar ffioedd diwygiedig ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol Rheoli Gweddillion (NRCP). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan ddefnyddio Citizen Space, ein hadnodd ymgynghori ar-lein. Lansiwyd yr ymgynghoriad gyda datganiad i'r wasg ac fe gafodd ei lwytho i fyny i Citizen Space. Fe'i cyhoeddwyd hefyd ar gyfrif X (Twitter gynt) a chyfrif LinkedIn VMD ac anfonwyd gohebiaeth hefyd at gynrychiolwyr grwpiau'r sectorau.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn ogystal ag ymateb y llywodraeth.

### Cefndir

Mae'r VMD yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Y VMD sy'n gyfrifol am y Rhaglen Genedlaethol Rheoli Gweddillion (NRCP), sy'n rhaglen statudol a fwriedir i helpu i ddiogelu iechyd pobl drwy adnabod gweddillion anniogel sylweddau gwaharddedig, meddyginiaethau milfeddygol, a halogion mewn cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid cyn iddynt fynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Mae'r Rhaglen Genedlaethol Rheoli Gweddillion (NRCP) yn helpu i ddiogelu iechyd pobl. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i bartneriaid masnachu'r DU ynghylch ansawdd a diogelwch cynhyrchion bwyd sy'n dod o anifeiliaid ac sy'n cael eu hallforio. Mae'r rhaglen yn helpu i gefnogi masnach ryngwladol gwerth tua £12 biliwn y flwyddyn i economi'r DU.

Mae polisi a gwyliadwriaeth gweddillion yn fater datganoledig, felly mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru i redeg y rhaglen NRCP ym Mhrydain Fawr. Sylwch nad yw'r rhaglen NRCP yn cynnwys samplu o safleoedd yng Ngogledd Iwerddon, gan fod ganddynt hwy eu cynllun samplu gweddillion cenedlaethol eu hunain. Caiff hwn ei oruchwylio gan yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA).

Mae'r rhaglen NRCP yn gweithredu drwy adennill ei holl gostau, felly mae gweithredwyr busnesau bwyd ym mhob un o'r sectorau da byw sy'n cymryd rhan yn cael eu hanfonebu bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn costio tua £6.6 miliwn y flwyddyn, a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cyrraedd tua £7 miliwn y flwyddyn erbyn 2028. Cynnydd yng nghostau gwasanaethau sy'n cael eu caffael sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen fel samplu, profi a nwyddau traul yw'r rheswm am hyn. Heb y diwygiadau arfaethedig yn y ffioedd y mae'r rhai sy'n cyfranogi yn y rhaglen NRCP yn eu talu ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y costau sy'n cael eu hadennill £1 filiwn yn brin ym mlwyddyn ariannol 26/27.

Ar hyn o bryd mae dros 500 o gwmnïau ar draws y gwahanol sectorau (gan gynnwys safleoedd ffermydd) wedi'u cynnwys yn y rhaglen NRCP.

## Trosolwg

### Nifer yr atebion a ddaeth i law

Cawsom 9 ymateb drwy Citizen Space, ein hadnodd ymgynghori ar-lein.

Ceir rhestr isod o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd yr holl ymatebwyr yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi.

## Y prif negeseuon

Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno â'n hargymhelliad mai'r dull mwyaf teg o bennu'r ffioedd newydd fyddai seilio'r cyfrifiadau ar ffigurau cynhyrchiant penodol pob sector (gweler opsiwn C isod). Byddai'r dull hwn yn atal rhai sectorau rhag gorfod traws-sybsideiddio sectorau eraill yn annheg, ac mae'n ystyried risgiau a nodweddion gwahanol pob sector, gan gysoni'r ffioedd â chostau gwirioneddol y rhaglen. Mae'r ffioedd newydd wedi'u nodi isod yn Nhabl 1.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn gwerthfawrogi cael mwy o eglurhad a thryloywder ar sut caiff y costau eu dadansoddi fesul sector, yn ogystal â gwybodaeth am y mesurau y mae'r rheini sy'n rhedeg y rhaglen NRCP yn eu hystyried i roi gwerth am arian a chost-effeithiolrwydd i gwsmeriaid.

Awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gellid pasio'r costau ychwanegol hyn ymlaen i'r prif gynhyrchwyr, yn hytrach na bod y proseswyr bwyd yn eu talu.

## Crynodeb o'r ymatebion - fesul cwestiwn

Roedd y ddogfen ymgynghori yn egluro'r rhesymau y tu ôl i'r angen i gynyddu'r ffioedd i'r busnesau sy'n dod o dan y rhaglen NRCP.  Cyflwynai'r tri opsiwn canlynol, gan argymell Opsiwn C:

A. Gwneud dim. Ni fydd Atodlen 1 yn newid, a byddai'r ffioedd yn aros ar y lefel bresennol. Byddai hyn yn peryglu diogelwch bwyd a'r rhwymedigaethau masnachu rhyngwladol.

B. Cynnydd un-radd o 22% yn y ffioedd yn Atodlen 1, wedi'i weithredu ar draws pob sector sy'n cymryd rhan yn y rhaglen NRCP. Fel hyn, byddai perygl i rai sectorau fod yn croes-sybsideiddio sectorau eraill.

C. Cynnydd canrannol penodol wedi'i deilwra ar gyfer sectorau'r diwydiant ar sail eu cynlluniau samplo, eu costau profi a'u lefelau cynhyrchiant penodol. Gweler Tabl 1.

### Roedd Cwestiwn 1 yn gofyn: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hasesiad mai'r dull mwyaf teg o ddiwygio Atodlen 1 yw opsiwn C?

Roedd pob ymatebydd ond un yn cytuno mai Opsiwn C fyddai'r dull gweithredu tecaf. Dyma'r prif bwyntiau:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno mai'r senario hwn yw'r un mwyaf rhesymol, gan ei fod yn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y gofynion rheoliadol, y costau a'r amser ar draws y sectorau.
- Roedd rhai o'r ymatebion yn galw am wneud adolygiad o'r prosesau samplo a ddefnyddiwyd, am wybodaeth am unrhyw ddulliau neu dechnolegau amgen newydd sydd wedi cael eu hystyried a sut y gall y rhain o bosibl leihau costau gweithredu a beichiau gweinyddol i'r dyfodol.
- Er bod chwyddiant yn cael ei gydnabod fel rhan o'r rheswm pam bod costau'n cynyddu, y teimlad oedd na ellir derbyn y cynnydd heb sicrwydd bod mesurau effeithlonrwydd ac opsiynau amgen wedi cael eu hystyried yn gyntaf.
- Teimlai un neu ddau o'r ymatebwyr hefyd fod y cynnydd mewn costau yn fwy na chwyddiant ac y byddent yn gwerthfawrogi dadansoddiad manylach o'r costau a sut mae'r arian yn cael ei wario yn y gwahanol sectorau.

### Roedd Cwestiwn 2 yn gofyn: Pa effaith fyddech chi'n disgwyl i'r cyfraddau diwygiedig ei chael ar eich elw?

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn credu na fydd y cynnydd mewn costau yn effeithio gormod ar eu helw, gyda 67% o'r ymatebwyr yn dweud mai bach fyddai'r effaith ar eu helw neu na fyddai hyd yn oed yn cael dim effaith o gwbl.

Dim ond un ymatebydd oedd yn credu y byddai'n cael effaith fawr ar eu helw.

| **Ymateb i'r cwestiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Effaith Fawr | 1 |
| Effaith Ganolig | 1 |
| Effaith Fach | 4 |
| Dim effaith o gwbl | 2 |
| Ddim yn gwybod | 1 |

### Roedd Cwestiwn 3 yn gofyn: A fyddech chi'n disgwyl amsugno'r gost ychwanegol hon ynteu ei phasio ymlaen i'ch cwsmeriaid?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r costau ychwanegol sy'n codi o'r ffioedd newydd yn cael eu pasio ymlaen.

| **Ymateb i'r cwestiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Amsugno | 2 |
| Pasio ymlaen | 4 |
| Arall | 0 |
| Dim un o'r uchod | 2 |
| Ddim yn gwybod | 1 |

Roedd safbwyntiau ychwanegol am hyn yn cynnwys:

- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai'r gost ychwanegol hon lanio gyda'r prif gynhyrchwyr, boed hi'n cael ei hamsugno neu ei phasio ymlaen i lawr y gadwyn.
- Roedd rhai yn gobeithio gweld y gost ychwanegol hon yn cael ei rhannu'n gyfartal ymysg y partïon ar draws y gadwyn gyflenwi, ond cydnabyddent hefyd nad yw hyn yn debygol o ddigwydd.

### Roedd Cwestiwn 4 yn gofyn: Sut bydd hyn yn effeithio ar y galw am eich nwyddau a'ch gwasanaethau?

Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu ar y cwestiwn hwn, gyda mwyafrif bach yn credu y byddai'r galw'n aros yr un fath, ond ychydig hefyd ddim yn gwybod sut gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y galw.

| **Ymateb i'r cwestiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Mwy o Alw | 0 |
| Byddai'r galw'n aros yr un fath | 4 |
| Llai o Alw | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

## Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn ddiolchgar am y sylwadau craff ac adeiladol a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn. Er ei bod yn anodd cyfrifo union ganran y cyfranogwyr sy'n cael eu cynrychioli gan yr ymatebion hyn, rydym yn gwerthfawrogi'r adborth o ansawdd uchel gan ei fod yn 'brawf litmws' defnyddiol. Bydd yr ymatebion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am drefniadau codi tâl y rhaglen NRCP i'r dyfodol. Gall y lefel ymateb isel fod oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys bod cyfranogwyr yn hanesyddol yn tueddu i ymgysylltu â'r rhaglen NRCP o safbwynt gweithredol a chydymffurfio yn unig, ac na fu ganddynt, yn hanesyddol, ddim i'w wneud â'r polisi. Mae'n galonogol, fodd bynnag, ein bod wedi cael mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn na phan wnaethom ymgynghori ar y pwnc hwn ddiwethaf yn 2024. Byddwn yn parhau i fynd ati i geisio barn ac ymgysylltu â'r cyfranogwyr er mwyn gallu deall y materion sy'n benodol i'r sector yn well. Rydyn ni'n gwir annog y rhanddeiliaid i barhau â'r sgwrs drwy gysylltu â Thîm Gweddillion y VMD yn residues@vmd.gov.uk.

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar y themâu allweddol canlynol:

- Sicrhau bod y rhaglen NRCP yn parhau i fod yn effeithlon, yn gost-effeithiol ac yn dryloyw, gyda diddordeb penodol mewn unrhyw ddatblygiadau, dulliau amgen neu ffyrdd o symleiddio prosesau sydd wedi cael eu hystyried.
- Yr angen parhaus i ymgysylltu'n agos â'r rhanddeiliaid er mwyn adolygu'r prosesau samplu a'r costau cysylltiedig gyda phob sector yn gyson.
- Y farn bod yr amgylchedd economaidd presennol yn anodd i fusnesau oherwydd costau gweithredu uwch, ac er bod pwysau chwyddiant yn cael eu cydnabod, mae angen rhoi sicrwydd i randdeiliaid mai fel y dewis olaf y gwnaed y cynnydd hwn.

Esboniwyd sail ddeddfwriaethol y rhaglen NRCP yn y papur ymgynghori. Roedd yn esbonio bod y dull a ddefnyddiwn i oruchwylio gweddillion yn seiliedig ar gywerthedd â safonau rhyngwladol, sydd hefyd wedi cael eu mabwysiadu gan bartneriaid masnachu'r DU. Cafodd y safonau hyn eu hymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig, ac o ganlyniad maent yn helpu i gefnogi allforion blynyddol gwerth £12 biliwn o gynhyrchion y DU sy'n dod o anifeiliaid (mae gwerth £8 biliwn o'r rhain yn mynd i farchnad yr UE).

Mae'r rhaglen NRCP yn un o'r rheolaethau swyddogol statudol ac, yn gyfreithiol, rhaid iddi gael ei chynnal gan awdurdodau cymwys dynodedig a labordai cyfeirio cymeradwy. Mae'r fframwaith hwn yn gosod cyfyngiadau angenrheidiol ar bwy sy'n gallu gwneud y gwaith dadansoddi, ond mae hefyd yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr, y diwydiant a'r partneriaid masnachu fod y rhaglen yn cynnal y safonau uchel sy'n ofynnol gan system wyliadwriaeth swyddogol.

Rydym yn cydnabod y sylwadau am yr amgylchedd gweithredu anodd y mae busnesau'n ei wynebu, a'r costau cynyddol. Mae'r VMD yn gweithio'n barhaus gyda'n partneriaid cyflenwi a'n harbenigwyr masnachol i fonitro ac archwilio'r rhaglen NRCP i sicrhau gwerth am arian. Mae unrhyw arbedion mewn costau yn cael eu pasio ymlaen ar unwaith i fusnesau yn y rhaglen NRCP. Nid yw rheolau'r Trysorlys ar reoli arian cyhoeddus yn caniatáu i'r VMD wneud na chadw dim elw.

Er mwyn sicrhau parhad, cysondeb a gwerth am arian, mae'r contract labordy yn gweithredu ar gylch deng mlynedd ac fe'i dyfernir drwy dendr agored, cystadleuol. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i sicrhau gallu arbenigol ar raddfa fawr, a chaniatáu inni ragweld costau dros amser.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno ei bod yn bwysig adolygu'r rhaglen yn barhaus i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn gymesur. Mae'r rhaglen NRCP heddiw yn ffrwyth llafur degawdau o waith datblygu wedi'i ategu gan systemau cydlynu pwrpasol a chronfeydd data labordai na fyddai'r rhaglen yn gallu gweithredu ar ei lefel effeithlonrwydd bresennol hebddynt. Mae adolygu'n rheolaidd eisoes yn nodwedd annatod o'r cyflawni, ac rydym wedi ymrwymo bob amser i addasu'r rhaglen a sut mae'n cael ei darparu wrth i gyfleoedd godi.

Mae cynigion i newid dull y rhaglen NRCP o oruchwylio gweddillion y tu allan i gwmpas yr ymarfer ymgynghori presennol hwn, a byddai gofyn casglu tystiolaeth gadarn i sicrhau bod y rhaglen NRCP yn dal i fodloni'r safonau sydd wedi cael eu sefydlu i ddiogelu iechyd pobl. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth wedi cydnabod adborth gan y diwydiant a bydd yn bwydo hwn i gynlluniau ehangach i adolygu'r rhaglen NRCP.

Fel y nodir yn y papur ymgynghori, mae ein rhagolygon ariannol yn dangos bod costau'n debygol o ddal i godi yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r VMD yn cynnig cynyddu'r ffioedd ar 1 Mehefin 2026 (Sylwch fod y ffioedd wedi cynyddu ar 1 Ebrill 2026 yng Nghymru) ac ar 1 Ebrill 2027 er mwyn i ni allu dychwelyd y rhaglen NRCP i sefyllfa lle mae'n gallu adennill ei chostau'n llawn wrth i ni ystyried opsiynau a methodolegau codi tâl ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn bwriadu dal i fonitro gweithrediad y cynllun a chyflwyno ymgynghoriad cyhoeddus pellach os oes gofyn gwneud newidiadau eraill.

Gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mai Opsiwn C oedd y dull tecaf, bydd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, yn unigol, yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i ddiweddaru'r ffioedd yn unol ag opsiwn C. Mae'r opsiwn hwn i'w weld isod yn Nhabl 1.

## Atodiad 1 - Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Isod fe welwch restr o'r sefydliadau na ofynnodd eu cynrychiolwyr na'u hymatebwyr unigol am gyfrinachedd. Ni roddodd un ymatebydd enw ei sefydliad ac felly nid yw'n ymddangos ar y rhestr hon. Fodd bynnag, mae eu barn yn dal wedi cyfrannu at ein dadansoddiad o'r ymgynghoriad hwn ac mae wedi'i gynnwys yn y ffigurau a gyflwynir. Cyflwynir y rhestr ganlynol yn nhrefn yr wyddor.

- Acuatic Vets Ltd
- Cyngor Dofednod Prydain (BPC)
- Cymdeithas Genedlaethol y Defaid (NSA)
- Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain (BMPA)
- Lister Veterinary Consultancy
- Streamline Veterinary Services Ltd
- Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid (NOAH)
- VSSCO Vet Practice

### Pob ymatebydd

| Math o ymatebydd | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Unigolyn | 4 |
| Sefydliad | 3 |
| Diwydiant | 1 |
| Grwp Ymgyrchu/Corff anllywodraethol | 1 |

### Lleoliad yr ymatebwyr

| Lleoliad yr ymatebydd | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Lloegr | 4 |
| Yr Alban | 1 |
| Cymru | 0 |
| Gogledd Iwerddon | 1 |
| Pob un o'r uchod | 3 |

## Tabl 1 - Newidiadau arfaethedig i Atodlen 1

| Math o anifail neu gynnyrch anifeiliaid | Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) 2024 ar gyfer ffioedd (£) ar neu ar ôl Ebrill 2025 | Ffioedd arfaethedig (£) yn 2026 - 2027 | Cynnydd gwirioneddol (£) | Ffioedd arfaethedig (£) yn 2027 - 2028 | Cynnydd gwirioneddol (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwartheg | 0.7617 y carcas | 0.9964 y carcas | 0.2347 y carcas | 1.0216 y carcas | 0.0252 y carcas |
| Geifr | 0.0751 y carcas | 0.0864 y carcas | 0.0113 y carcas | 0.0886 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Defaid | 0.0751 y carcas | 0.0864 y carcas | 0.0113 y carcas | 0.0886 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Anifeiliaid carngaled | 0.4660 y carcas | 0.5359 y carcas | 0.0699 y carcas | 0.5495 y carcas | 0.0136 y carcas |
| Moch | 0.0735 y carcas | 0.0845 y carcas | 0.0110 y carcas | 0.0867 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Anifeiliaid hela ac anifeiliaid hela gwyllt | 1.0461 y dunnell | 1.0461 y dunnell | 0 y dunnell | 1.0461 y dunnell | 0 y dunnell |
| Dofednod | 0.6432 y dunnell | 0.7397 y dunnell | 0.0965 y dunnell | 0.7584 y dunnell | 0.0187 y dunnell |
| Wyau | 0.0206 y cas o 360 | 0.0237 y cas o 360 | 0.0031 y cas o 360 | 0.0243 y cas o 360 | 0.0006 y cas o 360 |
| Llaeth | 0.0405 y 1000 litr | 0.0466 y 1000 litr | 0.0061 y 1000 litr | 0.0478 y 1000 litr | 0.0012 y 1000 litr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pysgod ar wahân i frithyll | 2.3546 y dunnell o gynnyrch a farchnetir | 2.7078 y dunnell o gynnyrch a farchnetir | 0.3532 y dunnell o gynnyrch a farchnetir | 2.7764 y dunnell o gynnyrch a farchnetir | 0.0686 y dunnell o gynnyrch a farchnetir |
| Brithyll | 2.8222 y dunnell o fwyd pysgod | 3.2455 y dunnell o fwyd pysgod | 0.4233 y dunnell o fwyd pysgod | 3.3278 y dunnell o fwyd pysgod | 0.0823 y dunnell o fwyd pysgod |